Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Glyncorrwg
# Stryd y Bont
# Glyncorrwg
# Port Talbot
# SA13 3BB

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2020

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Glyncorrwg

Mae Ysgol Gynradd Glyncorrwg yn awdurdod lleol Castell-nedd Port Talbot. Mae 90 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 17 o ddisgyblion meithrin sy'n mynychu'n rhan-amser. Mae pedwar dosbarth oedran cymysg.

Cyfran gyfartalog y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim dros y tair blynedd ddiwethaf yw tua 25%. Mae hyn uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef 18%. Mae'r ysgol wedi nodi bod gan ryw 22% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn debyg i'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 21%. Mae bron pob un o'r disgyblion o dras gwyn Prydeinig, ac yn siarad Saesneg gartref.

Mae Ysgol Gynradd Glyncorrwg, ynghyd ag Ysgol Gynradd Cymer Afan, Ysgol Gynradd Croeserw ac Ysgol Gynradd Pen Afan, yn rhan o Ffederasiwn Ysgolion Cwm Afan Uchaf, a ffurfiwyd ym mis Medi 2013. Roedd y ffederasiwn yn un o bum ysgol yn flaenorol, ond lleihawyd hyn i bedair ysgol gynradd ar ôl cau Ysgol Gyfun Cymer Afan ym mis Gorffennaf 2019.

Dechreuodd pennaeth y ffederasiwn yn ei swydd ym mis Medi 2019; roedd wedi bod yn arweinydd y sector cynradd er 2013. Mae dysgwr arweiniol gan bob ysgol gynradd, sy'n gyfrifol am gynnal yr ysgol o ddydd i ddydd.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Glyncorrwg yn gymuned groesawgar a chynhwysol, lle mae staff yn rhoi pwyslais cryf ar les disgyblion. O oedran ifanc, mae ymddygiad disgyblion yn rhagorol, a dangosant lefel uchel o barch ar y ddwy ochr at eu cyfoedion, oedolion ac ymwelwyr. Mae athrawon yn cynllunio cwricwlwm ysgogol ar gyfer disgyblion, sy'n ennyn eu diddordebau yn dda. Mae'r perthnasoedd gwaith effeithiol rhwng disgyblion a staff yn creu awyrgylch cadarnhaol ar gyfer dysgu, lle mae disgyblion yn teimlo'n gyfforddus i gyfrannu heb iddynt ofni gwneud camgymeriadau. O ganlyniad i hyn, mae disgyblion yn gwneud cynnydd priodol o'u mannau cychwyn. Fodd bynnag, mae safon yr addysgu yn anghyson, ac yn aml, mae diffyg her mewn gweithgareddau dysgu. Mae hyn yn golygu nad yw disgyblion, yn enwedig y rhai mwy abl, yn gwneud y cynnydd y gallent ei wneud bob amser, ac yn gyffredinol, nid oes gan ddisgyblion fedrau cryf o ran dysgu'n annibynnol.

Ers sefydlu'r ffederasiwn ysgolion cynradd ym mis Medi 2019, mae'r pennaeth, gyda chymorth staff a llywodraethwyr, wedi sicrhau mai lles y disgyblion yw'r brif flaenoriaeth. Mae hyn yn amlwg yn y gofal, y cymorth a'r arweiniad a roddir i ddisgyblion ar draws y ffederasiwn o ysgolion. Mae arweinwyr y ffederasiwn yn dechrau sefydlu diwylliant o gydweithio a rhannu, sydd o fudd i les staff a disgyblion. Mae'r diwylliant hwn yn gosod naws gadarnhaol ar gyfer y gwaith ym mhob un o ysgolion y ffederasiwn. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yr ysgol wedi sicrhau bod safonau addysgu a phrofiadau dysgu yn gyson dda ym mhob un o'r ysgolion o fewn y ffederasiwn. Megis dechrau datblygu y mae prosesau hunanwerthuso a threfniadau i rannu arfer orau mewn addysgu, ac mewn darpariaeth ar gyfer medrau.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwelliant** |

## Argymhellion

A1 Gwella addysgu a dysgu fel bod pob un o’r disgyblion yn gwneud y cynnydd y gallant ei wneud

A2 Gwella darpariaeth i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion

A3 Datblygu medrau dysgu’n annibynnol y disgyblion, gan gynnwys eu gallu i resymu, datrys problemau a gwella eu gwaith eu hunain

A4 Cryfhau cyfraniadau arweinwyr ar bob lefel ar draws y ffederasiwn, yn enwedig at waith gwerthuso a gwella

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

### Safonau: Digonol ac angen gwelliant

Mae tua hanner y disgyblion yn dechrau'r ysgol â medrau sy'n is na'r disgwyl ar gyfer eu hoedran. At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol o'u mannau cychwyn unigol, er bod eu cynnydd dros gyfnod yn anghyson. Mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd da tuag at eu targedau unigol. Fodd bynnag, nid yw disgyblion sy'n fwy abl yn cyflawni cystal ag y gallent bob amser. Nid oes gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau meddwl a datrys problemau digon cryf. Mae hyn yn cyfyngu ar eu gallu i fod yn ddysgwyr ymholgar sy'n cwestiynu ac yn herio eu meddwl eu hunain.

Ar draws yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn meddu ar fedrau gwrando effeithiol, gan ddangos cwrteisi a pharch at oedolion a chyfoedion pan fyddant yn siarad. Yn y dosbarth meithrin, mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd effeithiol o'u man cychwyn, ac yn cyfleu eu teimladau'n dda. Defnyddiant frawddegau syml yn gywir i drafod eu gweithgareddau, er enghraifft wrth ddod o hyd i wahanol anifeiliaid yn yr ardal awyr agored. At ei gilydd, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau siarad wrth iddynt symud trwy'r ysgol, a defnyddiant eirfa sy'n benodol i bwnc yn gywir wrth drafod eu gwaith. Fodd bynnag, nid oes gan leiafrif o ddisgyblion eirfa ddigon cyfoethog, neu nid ydynt yn ymestyn eu brawddegau yn ddigon da. Mae hyn yn rhwystro eu gallu i fynegi ac esbonio eu syniadau'n glir.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos brwdfrydedd tuag at y Gymraeg ac yn mwynhau dysgu a defnyddio patrymau Cymraeg. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dechrau defnyddio'r iaith yn llwyddiannus fel rhan o'u harferion dyddiol, er enghraifft wrth drafod y tywydd neu'u teimladau. Mae'r ffocws diweddar ar ddefnyddio'r Gymraeg ar draws y ffederasiwn wedi sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn dechrau gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu eu medrau siarad.

Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o seiniau llythrennau unigol, a defnyddiant y wybodaeth hon yn briodol i ffurfio geiriau anghyfarwydd. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif ohonynt yn meddu ar wybodaeth ffonetig ddigon cryf, er enghraifft i adnabod cyfuniadau o seiniau mewn geiriau. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn darllen testunau cyfarwydd yn rhugl, ac yn trafod cynnwys eu storïau yn briodol, er nad ydynt bob amser yn datblygu cariad at ddarllen sy'n eu galluogi i ddewis darllen er pleser. Wrth i ddisgyblion symud trwy gyfnod allweddol 2, mae eu cynnydd mewn darllen yn cyflymu, ac, yn gyffredinol, mae disgyblion yn gwneud gwelliannau effeithiol yn eu medrau darllen. Mae llawer ohonynt yn dechrau cymhwyso'r medrau hyn yn briodol ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ymchwilio i wybodaeth am y gwahaniaeth rhwng pobl gyfoethog a phobl dlawd yn oes y Tuduriaid. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen llyfrau Cymraeg cyfarwydd ag ynganiad a dealltwriaeth briodol hefyd.

Mae medrau ysgrifennu cynnar llawer o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn. Erbyn Blwyddyn 2, mae mwyafrif ohonynt yn ysgrifennu brawddegau syml yn fedrus, gan ddefnyddio ystod briodol o atalnodi a geirfa. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisyblion yn cynllunio ac yn ysgrifennu mewn ystod addas o arddulliau ysgrifennu. At ei gilydd, mae ganddynt lawysgrifen ddarllenadwy, ac maent yn cyflwyno eu

gwaith yn ddestlus. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer ohonynt yn defnyddio paragraffau yn gywir i gyfleu'r prif syniadau yn eu hysgrifennu, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyr gartref fel faciwî yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Fodd bynnag, nid yw gallu disgyblion i ysgrifennu'n greadigol, gan ddefnyddio ystod eang o eirfa a strwythurau brawddeg i gyfoethogi eu gwaith, wedi'i ddatblygu'n ddigonol. Gyda chymorth gan oedolyn, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n addas yn Gymraeg.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol o ran datblygu eu medrau rhifedd. Yn y dosbarth derbyn, mae llawer ohonynt yn creu patrymau gan ddefnyddio dau a thri maen prawf yn llwyddiannus. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio diagram Venn yn fedrus i ddidoli gwahanol fathau o ddeinosoriaid yn unol â meini prawf penodol. Maent yn mesur deinosoriaid yn gywir i'r centimedr agosaf ac yn eu didoli yn ôl eu maint. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio eu gwybodaeth am adio, tynnu, lluosi a rhannu yn briodol i ddatrys problemau rhif. Mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau yn bwrpasol ar draws y cwricwlwm pan roddir cyfle iddynt wneud hynny. Er enghraifft, ym Mlynyddoedd 5 a 6, mae disgyblion yn creu diagram ar raddfa i ddangos sut byddent yn defnyddio tir yr ysgol i greu rhandir gan ddefnyddio arwynebedd a pherimedr yn gywir i gyfrifo defnydd o wahanol wagleoedd. At ei gilydd, ar draws yr ysgol, nid yw disgyblion bob amser yn cymhwyso eu medrau rhifedd i'r un lefel ar draws y cwricwlwm â'r hyn a wnânt yn eu gwersi mathemateg, ac nid yw eu medrau rhesymu wedi'u datblygu'n ddigonol.

Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ystod addas o offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn hyderus i gefnogi eu dysgu, ac mae eu medrau yn datblygu'n briodol. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlynyddoedd 1 a 2 yn mewngofnodi i'w cyfrifon eu hunain yn annibynnol, ac yn defnyddio rhaglen gelf i greu llun o'r gofod. Fodd bynnag, ar draws y cyfnod sylfaen, nid ydynt yn datblygu eu medrau TGCh yn ddigon da wrth weithio'n annibynnol ar draws y meysydd dysgu. Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn meithrin eu medrau TGCh yn briodol, er enghraifft wrth greu taflen wybodaeth ddefnyddiol am ddannedd gan ddefnyddio pecyn prosesu geiriau. Mae cynnydd disgyblion yn cyflymu tuag at ddiwedd cyfnod allweddol 2, ac mae llawer o ddisgyblion hŷn yn defnyddio ac yn cymhwyso ystod o fedrau TGCh yn effeithiol i gefnogi eu dysgu ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, ym Mlynyddoedd 5 a 6, mae disgyblion yn defnyddio taenlenni ac yn creu fformiwla yn gywir i ddarganfod cyfanswm nifer y llongau rhyfel a foddwyd yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

### Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae ymddygiad bron pob un o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn eithriadol o dda. Maent yn foesgar a chwrtais, ac yn dangos parch at eu ffrindiau, at staff ac ymwelwyr. Yn y meithrin, er enghraifft, mae bron pob un o'r disgyblion yn bwrw ymlaen ag arferion dyddiol yn gyflym, gan rannu adnoddau a chydweithio â'u ffrindiau. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn gweithredu fel modelau rôl gwerthfawr i ddisgyblion iau, a dangosant lefelau uchel o ofal tuag atynt, er enghraifft pan fydd dewiniaid digidol yn cynorthwyo disgyblion iau i elwa ar raglenni TGCh.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n hapus, yn ddiogel ac yn saff yn yr ysgol, ac maent yn hyderus y bydd oedolion yn gwrando ar eu pryderon ac yn delio â'u problemau'n gyflym. Mae gan y rhan fwyaf ohonynt ddealltwriaeth briodol o'r hyn y

mae angen iddynt ei wneud i'w cadw eu hunain yn ddiogel, ac maent yn dangos dealltwriaeth addas o ddiogelwch ar-lein. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u hawliau eu hunain fel plant, ac mae'r Llysgenhadon Hawliau yn arwain gwasanaethau ysgol gyfan wythnosol i hyrwyddo'r hawliau hyn yn llwyddiannus.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth effeithiol o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach. Mae disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn siarad yn hyderus am yr angen i ddewis bwydydd iach, er enghraifft wrth drefnu basged bicnic iach ar gyfer Yr Hugan Fach Goch. Mae llawer o ddisgyblion yn cydnabod buddion ymarfer corff, ac yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn sesiynau 'Deffro, Symbylu' ('Wake-Up, Shake-Up') wythnosol. Mae gan y Llysgenhadon Chwaraeon rôl weithredol mewn datblygu ac annog disgyblion i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol yn ystod amseroedd egwyl, ac mewn arwain gemau maes chwarae yn llwyddiannus.

Mae disgyblion yn awyddus i ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau arwain o oedran ifanc. Yn y cyfnod sylfaen, mae 'Helpwr Heddiw' yn arwain gweithgareddau Cymraeg dyddiol yn frwdfrydig ac yn helpu â rolau eraill o gwmpas yr ystafell ddosbarth yn ystod y dydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gydwybodol wrth iddynt ymgymryd â'u rolau a'u cyfrifoldebau fel rhan o grwpiau llais y disgybl. Er enghraifft, mae'r heddlu bach yn hyrwyddo parcio diogel y tu allan i gatiau'r ysgol. Mae'r 'Criw Cymraeg' yn hyrwyddo datblygu'r Gymraeg yn effeithiol. Maent wedi cyflwyno mentrau gwerth chweil sy'n cael effaith gadarnhaol ar fedrau disgyblion wrth iddynt siarad Cymraeg, yn ogystal â'u brwdfrydedd tuag at ddysgu'r iaith.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymdawelu'n gyflym yn eu gwersi. Maent yn gwrando'n astud ac yn cynnal lefelau uchel o ganolbwyntio. Mae llawer o ddisgyblion yn ymgymryd â'u dysgu ac yn cwblhau tasgau a osodir ar eu cyfer yn dda. Mae llawer ohonynt yn symud o un dasg i un arall yn ddi-dor, ac yn dilyn cyfarwyddiadau yn effeithiol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos dyfalbarhad a phenderfynoldeb i gwblhau tasgau heriol, a llwyddo ynddynt, er enghraifft wrth gasglu gwybodaeth o gronfeydd data am blanedau i ddatrys problemau mathemategol. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw gallu disgyblion i weithio'n annibynnol a gwneud dewisiadau ynglŷn â'u dysgu, wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

Mae llawer o ddisgyblion yn oddefgar tuag at ei gilydd, ac yn gweithio'n dda iawn mewn parau neu grwpiau. Maent yn frwdfrydig wrth siarad am eu hysgol a'u gwaith. Maent yn ffurfio perthnasoedd cryf a chadarnhaol gyda staff a disgyblion eraill, sy'n helpu creu amgylchedd meithringar. Maent yn ymgysylltu'n eithriadol o dda ag athrawon ac oedolion eraill, ac o ganlyniad, yn hyderus wrth ateb cwestiynau a dilyn cyfarwyddiadau.

Mae presenoldeb dros gyfnod yn gyson dda, ac mae bron pob un o'r disgyblion yn cyrraedd yn brydlon ar ddechrau'r diwrnod ysgol.

## Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwelliant

Mae athrawon yn cynllunio ar y cyd ar draws y ffederasiwn, ac mae hyn yn eu helpu i sicrhau bod disgyblion yn cael ystod eang a theg o brofiadau dysgu. Mae athrawon yn defnyddio cynlluniau gwaith cyhoeddedig i'w cynorthwyo â syniadau ar gyfer testunau'r cwricwlwm a gweithgareddau dysgu. At ei gilydd, maent yn cynllunio profiadau perthnasol ar gyfer disgyblion ar draws y cwricwlwm, y maent yn eu mwynhau.

Mae athrawon yn ehangu ar y cwricwlwm yn effeithiol gydag amrywiaeth o ymweliadau addysgol ac ymwelwyr, y maent yn eu defnyddio i ennyn brwdfrydedd disgyblion, a gwneud dysgu'n ddiddorol. Er enghraifft, fe wnaeth yr ymweliad â'r maenordy yn Llancaiach Fawr helpu disgyblion i ddeall mwy am fywyd yn oes y Tuduriaid.

Mae'r ysgol yn defnyddio fframwaith medrau cenedlaethol ar gyfer llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn briodol wrth gynllunio eu testunau cwricwlwm. Yn ddiweddar, mae athrawon wedi dechrau cynllunio ychydig o brosiectau ysgogol sy'n galluogi disgyblion i atgyfnerthu a datblygu amrywiaeth o fedrau ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, ym Mlynyddoedd 3 a 4, trefnodd y disgyblion wledd briodas ar gyfer Harri VIII a Catherine o Aragon. Galluogodd y prosiect hwn i'r disgyblion ymchwilio i wybodaeth am fwydydd ar gyfer pobl gyfoethog yn ystod oes y Tuduriaid fel y gallent gynllunio, dylunio a chyllidebu ar gyfer pryd bwyd mewn gwledd. Cymhwysodd disgyblion eu medrau llythrennedd a rhifedd yn dda i fesur a gwneud addurniadau, creu gwahoddiadau priodas a bwydlenni. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn cynllunio digon o gyfleoedd pwrpasol fel y rhain i ddisgyblion ymestyn eu medrau llythrennedd a rhifedd yn effeithiol mewn amrywiaeth o gyd-destunau perthnasol mewn pynciau eraill ar draws y cwricwlwm yn ddigon aml. At ei gilydd, nid oes strategaeth glir ar gyfer sicrhau dilyniant yn natblygiad medrau disgyblion dros ddilyniannau gwersi na thros gyfnod. O ganlyniad, nid yw athrawon bob amser yn sicrhau bod gwersi'n adeiladu'n systematig ar gyflawniadau blaenorol disgyblion, ac o bryd i'w gilydd, mae hyn yn arwain at ailadrodd gwaith ar safon debyg ar draws grwpiau blwyddyn.

Mae darpariaeth ar gyfer disgyblion meithrin sy'n dechrau yn yr ysgol wedi'i strwythuro'n dda, ac yn helpu sicrhau eu bod yn ymgynefino'n gyflym, yn dysgu arferion dyddiol ac yn awyddus i ddysgu. Mae gweithgareddau buddiol yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu medrau siarad, gwrando a medrau cymdeithasol effeithiol pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol. Ar draws y cyfnod sylfaen, mae athrawon yn cynllunio ystod briodol o dasgau o dan gyfarwyddyd oedolyn, a chyfleoedd i ddisgyblion atgyfnerthu eu medrau ar lefel syml ar draws y meysydd dysgu. Fodd bynnag, nid yw gweithgareddau yn y meysydd hyn yn darparu digon o her i ddisgyblion gymhwyso a datblygu ystod eang o fedrau ar y lefel briodol. Er bod athrawon yn cynllunio amrywiaeth o weithgareddau i ddisgyblion ddatblygu eu medrau yn yr awyr agored, er enghraifft wrth adeiladu llochesi ar gyfer anifeiliaid, nid oes cyfleoedd digon rheolaidd iddynt archwilio ac arbrofi'n rhwydd mewn gweithgareddau annibynnol a heriol.

Mae darpariaeth i ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion yn datblygu'n dda. Mae hyn yn dechrau gwella eu hyder yn defnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd llai ffurfiol, ac yn eu cynorthwyo i wneud cynnydd ieithyddol addas wrth iddynt symud trwy'r ysgol.

Un o gryfderau'r addysgu yw'r perthnasoedd gwaith effeithiol sy'n bodoli rhwng disgyblion a staff. Mae hyn yn creu awyrgylch cadarnhaol ar gyfer dysgu, ac amgylchedd lle mae disgyblion yn teimlo'n gyfforddus i gyfrannu, gan wybod ei bod yn iawn gwneud camgymeriadau fel y gallant ddysgu oddi wrthynt. Fodd bynnag, mae diffyg cysondeb yn safon yr addysgu ar draws yr ysgol. Mewn ychydig o achosion, mae gwersi'n cynnwys nodau a meini prawf llwyddiant clir sy'n ennyn diddordeb y disgyblion yn dda. Mae athrawon yn holi disgyblion yn fedrus trwy gydol y wers i asesu eu cynnydd, ac yn ymyrryd yn fuddiol i ddyfnhau eu dealltwriaeth o gysyniadau anodd. Pan fydd yr addysgu yn llai effeithiol, mae oedolion yn gor-

gyfarwyddo gweithgareddau. Mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu'n annibynnol a gwneud dewisiadau yn eu dysgu. Yn rhy aml, nid yw athrawon yn cynllunio gweithgareddau yn ddigon da i herio disgyblion i gyflawni ar y lefel y dylent, yn enwedig y rhai sy'n fwy abl. Ar adegau, nid yw athrawon bob amser yn meddu ar wybodaeth bynciol ddigon cryf na dealltwriaeth ddigon trylwyr o gynnydd o ran medrau disgyblion.

Nid yw ansawdd yr adborth i ddisgyblion i'w galluogi i fyfyrio ar eu gwaith eu hunain, a'i wella, wedi'i ddatblygu'n ddigonol. Mewn ychydig o ddosbarthiadau, mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fyfyrio ar yr hyn y maent wedi'i ddysgu trwy asesu yn unol â meini prawf llwyddiant penodol. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw adborth yn helpu disgyblion i ddeall beth mae angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned groesawgar a chynhwysol sy'n cynorthwyo ei disgyblion yn dda trwy ei hamgylchedd cyfeillgar a meithringar. Mae gan staff ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion o ran eu hymddygiad, a rhoddir pwyslais cryf ar eu hannog i ofalu am ei gilydd. Mae hyn yn creu amgylchedd dysgu digynnwrf lle ceir synnwyr cryf o barch ar y ddwy ochr rhwng oedolion a disgyblion. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae staff yn creu cyfleoedd gwerthfawr i feithrin a chynnal perthnasoedd gwaith effeithiol gyda rhieni. Defnyddiant ystod eang o ddulliau cyfathrebu, fel cyfryngau cymdeithasol a chylchlythyrau, yn ogystal â chyfathrebu wyneb yn wyneb, i roi gwybodaeth ddefnyddiol i rieni a theuluoedd. Mae rhieni'n elwa ar fynychu'r gweithdai addysgiadol, ac o ganlyniad, yn teimlo'n fwy hyderus i gefnogi dysgu eu plant gartref. Er enghraifft, mae athrawon yn trefnu sesiynau yn seiliedig ar chwarae ar gyfer rhieni disgyblion yn y meithrin i rannu strategaethau a syniadau defnyddiol â nhw y gallant eu defnyddio i gynorthwyo eu plant gartref.

Mae gan yr ysgol systemau cynhwysfawr ar waith ar gyfer monitro ac olrhain cynnydd disgyblion. Mae staff yn gwneud defnydd buddiol o'r wybodaeth hon i nodi disgyblion unigol y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Mae hyn yn eu galluogi i gynorthwyo disgyblion yn bwrpasol ag ystod eang o ymyriadau, er enghraifft i ddatblygu eu medrau siarad cynnar. O ganlyniad, mae disgyblion sy'n derbyn yr ymyriadau hyn yn gwneud cynnydd da tuag at eu targedau, ar y cyfan. Fodd bynnag, ni chaiff systemau olrhain eu defnyddio'n ddigon trylwyr bob amser i alluogi staff i ddarparu lefel briodol o her ar gyfer pob grŵp o ddisgyblion, yn enwedig y rhai sy'n fwy abl.

Mae darpariaeth effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig. Mae athrawon yn defnyddio targedau o gynlluniau dysgu unigol yn bwrpasol mewn gwersi i deilwra gwaith i weddu i anghenion unigol disgyblion. Mae gan yr ysgol bartneriaethau gwerthfawr ag asiantaethau eraill sy'n rhoi cymorth a chyngor arbenigol i staff. O ganlyniad, mae'r ysgol yn rhoi cymorth gwerth chweil i unigolion, yn unol â'u hanghenion. Mae perthnasoedd gwaith agos â darpariaeth Dechrau'n Deg ar dir yr ysgol yn galluogi staff i nodi a chynllunio ar gyfer anghenion disgyblion wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Er enghraifft, mae staff yn cynorthwyo llysgenhadon chwaraeon yr ysgol yn llwyddiannus i hyrwyddo amseroedd chwarae gweithgar, ac arwain gweithgareddau corfforol yn ystod amseroedd egwyl.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion gyfrannu at fywyd yr ysgol trwy ystod eang o grwpiau disgyblion fel arwyr chwarae, dewiniaid digidol a llysgenhadon chwaraeon. Mae cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu rolau arwain o oedran ifanc, a chymryd rôl weithredol mewn gwneud penderfyniadau a dylanwadu ar fywyd yr ysgol. Er enghraifft, yn dilyn ymweliad gan Dŵr Cymru, bu staff yn gweithio gyda'r eco-bwyllgor i sefydlu ymgyrch 'Arbed Ein Dŵr' ('Save Our Water') i annog disgyblion i ddefnyddio llai o ddŵr yn yr ysgol a gartref.

Mae cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau cymdeithasol disgyblion. Er enghraifft, fe wnaeth ymweliad preswyl â Pharc Margam ar gyfer disgyblion hŷn alluogi disgyblion i weithio ar weithgareddau datrys problemau heriol gyda'i gilydd. Cafodd hyn effaith gadarnhaol ar eu medrau cymdeithasol, yn ogystal â'u hunan-barch.

Mae darpariaeth ar gyfer sicrhau datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol. Er enghraifft, yn ystod gwasanaethau, mae athrawon a disgyblion yn trafod gwerth y mis ar gyfer yr ysgol, ac yn ei gysylltu â'r modd y mae disgyblion yn dangos gofal a chymorth at ddisgyblion eraill ar y maes chwarae. Rhoddir llawer o gyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion wneud cyfraniadau gwerthfawr at fywyd cymunedol trwy ymweliadau â'r eglwys leol, a Noddfa i ddarparu boreau coffi a chyngherddau.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwelliant

Ers ymgymryd ag arweinyddiaeth gyffredinol y ffederasiwn ym mis Medi 2019, mae'r pennaeth wedi gweithio'n llwyddiannus i ddatblygu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer sicrhau lles, a meithrin disgyblion ar draws y ffederasiwn. Mae'r weledigaeth hon yn cynnwys ymrwymiad i ddiwallu anghenion corfforol, cymdeithasol ac emosiynol disgyblion. Mae'r gwaith hwn yn effeithiol ac yn sicrhau bod pob un o'r ysgolion yn elwa ar awyrgylch digynnwrf lle mae disgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn ymgysylltu â'u dysgu yn gadarnhaol.

Mae'r weledigaeth i hyrwyddo cydweithio rhwng yr ysgolion yn datblygu'n dda, ac yn dod yn ddylanwadol mewn nifer o ffyrdd. Mae'r rhain yn cynnwys cynllunio ar y cyd, ymagweddau cyson at ddiogelu disgyblion ac ymagweddau cyffredin at reolaeth ariannol. Mae'r diwylliant o rannu, sy'n datblygu, yn fuddiol i staff a disgyblion. Er enghraifft, mae'n sicrhau bod disgyblion yn cael ystod debyg o brofiadau dysgu, ac yn arwain effeithlonrwydd ariannol fel bod digwyddiadau fel ymweliadau addysgol yn hyfyw a fforddiadwy.

Yn ogystal â'r pennaeth, mae uwch aelod o staff ym mhob ysgol. Mae'r aelodau staff hyn yn ymgymryd â rôl dysgwyr arweiniol. Maent yn cymryd cyfrifoldeb o ddydd i ddydd am arwain safleoedd yr ysgol yn absenoldeb y pennaeth. Yn ychwanegol, maent yn arwain ac yn monitro cynllunio'r cwricwlwm ar gyfer parau o grwpiau blwyddyn ar draws y ffederasiwn. Mae hyn yn fuddiol o ran hyrwyddo cydweithio, a meithrin ethos tîm. Fodd bynnag, o ganlyniad i'w ffocws ar arwain grwpiau oedran penodol ar draws y ffederasiwn, mewn gormod o achosion, nid oes gan ddysgwyr

arweiniol ddealltwriaeth ddigon cryf o ansawdd y ddarpariaeth na safonau a chynnydd disgyblion yn eu hysgolion eu hunain. Mewn ychydig o achosion, mae dysgwyr arweiniol wedi gwneud cyfraniadau gwerthfawr at fedrau proffesiynol cydweithwyr, er enghraifft trwy sicrhau defnydd cyson o broffil y cyfnod sylfaen pan fydd disgyblion yn ymuno â phob ysgol, a thrwy godi proffil y Gymraeg ar draws y ffederasiwn.

Mae arweinwyr yr ysgol yn casglu cryn dipyn o wybodaeth am gynnydd disgyblion mewn system olrhain electronig. Mae'r pennaeth yn defnyddio hyn a gwybodaeth arall, er enghraifft tystiolaeth o deithiau dysgu, i nodi ychydig o feysydd priodol i'w gwella ar draws y ffederasiwn. Mae'r rhain yn cynnwys yr angen i wella medrau Cymraeg disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r pennaeth a'r dysgwyr arweiniol yn ystyried tystiolaeth uniongyrchol arall yn ddigon da bob amser, fel ystod ac ansawdd y gwaith yn llyfrau disgyblion ac mewn gwersi wrth werthuso darpariaeth a safonau. O ganlyniad, nid yw arweinwyr bob amser yn nodi diffygion pwysig yn natblygiad medrau disgyblion na chyfleoedd i wella addysgu a phrofiadau dysgu yn ddigon da. Dros gyfnod, nid yw arweinwyr wedi gwneud defnydd digon da o enghreifftiau o addysgu a dysgu hynod effeithiol sy'n bodoli o fewn y ffederasiwn i wella arfer broffesiynol, a chodi safonau. At ei gilydd, nid oes gan y ffederasiwn strategaeth glir i wella'r addysgu ym mhob ysgol. Mae hyn yn cyfyngu ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion.

Caiff darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig ei chydlynu'n effeithiol. Mae gan bob ysgol arweinydd effeithiol ar gyfer darpariaeth anghenion addysgol arbennig. Maent wedi datblygu diwylliant cryf o rannu arfer, adnoddau a chyngor ymarferol. Mae athrawon a staff cymorth yn elwa'n dda ar hyn, ac mae'n sicrhau bod disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd da. Mae cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer cynorthwywyr addysgu yn fuddiol. Maent yn sicrhau bod gan yr aelodau staff hyn y medrau i gynorthwyo disgyblion i wneud cynnydd trwy ystod o strategaethau ymyrraeth defnyddiol. Mae hyn yn hynod werthfawr o ran ymestyn y ddarpariaeth anogaeth ar gyfer disgyblion.

Mae llywodraethwyr yn ceisio darparu addysg o safon uchel yng Nghwm Afan Uchaf. Maent yn darparu cymorth a her briodol ar gyfer arweinwyr y ffederasiwn, er enghraifft o ran dyrannu cyllid o'r gyllideb i bob un o'r ysgolion. Maent yn gwybod beth yw blaenoriaethau'r ffederasiwn ar gyfer gwella ac mae ganddynt brosesau addas ar waith i fonitro cynnydd tuag at y nodau hyn. Er enghraifft, mae llywodraethwyr yn edrych ar waith disgyblion ac yn cymryd rhan mewn teithiau dysgu. Maent yn cyfrannu'n briodol at y diwylliant cydweithio sy'n datblygu, er enghraifft trwy gynorthwyo'r ffederasiwn i ddatblygu polisïau a phrosesau ar y cyd ar gyfer diogelu.

Mae arweinwyr yr ysgol yn dyrannu cyllid yn briodol i gefnogi gwelliant yr ysgol. Gwnânt ddefnydd addas o gyllid ychwanegol o'r grant datblygu disgyblion i ariannu staff a rhaglenni ymyrraeth i wella lles a medrau sylfaenol disgyblion.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon a’r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle y bo’n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth, ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion (lle y bo’n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle y bo’n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/03/2020